Busnes, Rheolaeth a Marchnata

PAPUR ENGHREIFFTIOL

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Cewch ddefnyddio cyfrifiannell safonol nad oes modd ei rhaglennu.

Gan fod fformat a phynciau'r arholiad hwn wedi newid ar gyfer 2027, mae'r papur enghreifftiol hwn wedi'i lunio i roi syniad i chi o'r hyn i'w ddisgwyl ac i'ch helpu i baratoi.

Atebwch **DDAU** gwestiwn yn unig

50 marc yw gwerth pob cwestiwn. Bydd y papur yn cael ei farcio allan o 100.

Darllenwch y cwestiynau'n ofalus. Rhaid i chi ateb **2** gwestiwn o'r **papur cyfan**. **50** marc yw gwerth pob cwestiwn.

Adran A: Busnes

1. A yw globaleiddio wedi gwneud mwy o fudd nag o niwed i fusnesau a'u cwsmeriaid? Ystyriwch yr effeithiau ar swyddi, prisiau, y dewis o gynnyrch sydd ar gael, cystadleuaeth, a datblygu economaidd. (50 marc)

2. A ddylai busnesau aberthu elw yn y tymor byr er mwyn dod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy? Trafodwch y costau a'r manteision posib o ganolbwyntio ar gyfrifoldeb amgylcheddol. (50 marc)

3. A yw cystadleuaeth bob amser o fudd i gwsmeriaid? Ystyriwch sut mae cystadleuaeth yn effeithio ar brisiau, ansawdd, arloesi, a'r dewis sydd ar gael i'r cwsmer, gan hefyd ystyried unrhyw anfanteision posib. (50 marc)

Drosodd

Adran B: Rheolaeth

4. A yw'n well i reolwyr wneud penderfyniadau yn gyflym neu gymryd mwy o amser er mwyn casglu gwybodaeth? Trafodwch fanteision ac anfanteision y ddau ddull mewn gwahanol sefyllfaoedd. (50 marc)

5. Pa mor bwysig yw diwylliant y gweithle i lwyddiant y sefydliad? Ystyriwch a all y diwylliant fod yn bwysicach na ffactorau fel strategaeth, technoleg, neu adnoddau ariannol. (50 marc)

6. Pam mae pobl yn aml yn gwrthwynebu newid, a beth all rheolwyr ei wneud i oresgyn y gwrthwynebiad hwn? Defnyddiwch enghreifftiau o sefydliadau, ysgolion, timau chwaraeon, neu'r gymdeithas yn gyffredinol. (50 marc)

Drosodd

Adran C: Marchnata

7. I ba raddau y gellir dweud mai emosiynau sy'n dylanwadu ar gwsmeriaid yn hytrach na rhesymeg wrth iddynt wneud eu penderfyniadau prynu? Rhowch enghreifftiau o gynnyrch, gwasanaethau neu frandiau er mwyn ategu'ch dadl. (50 marc)

8. A yw marchnata yn dylanwadu ar werthoedd y gymdeithas, neu a yw dim ond yn adlewyrchu'r hyn y mae'r gymdeithas eisoes yn ei werthfawrogi? Ystyriwch bynciau fel y cyfryngau cymdeithasol, ffasiwn, tueddiadau ffordd o fyw, ac arferion cwsmeriaid. (50 marc)

9. A all cwmni adfer ei enw da ar ôl cael niwed i'w ddelwedd? Trafodwch pa gamau y gall sefydliadau eu cymryd ar ôl methiant cyhoeddus, bod yn rhan o fater dadleuol, neu argyfwng. A yw hi'n bosib adennill ymddiriedaeth bob amser? (50 marc)

Diwedd y Papur